**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 06-02(p3)**

**Dyddiad:** **20 Mawrth 2002**
**Amser:** **14.00 -17.30**
**Lleoliad:** **Ystafell Pwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **ADRODDIAD A GWEITHREDU GRWP GORCHWYL A GORFFEN AR GYFER GRANT CEFNOGI MENTERGARWCH**

**Mater**

1 Ym mis Mehefin 2001, cwblhaodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr Arolwg Cymorth Busnes gan argymell, ymhlith pethau eraill, y dylid rhesymoli'r cynlluniau cymorth busnes. Ym mis Mai 2001, cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar y pryd drefniant Grwp Gorchwyl a Gorffen i archwilio'r achos dros greu Cynllun Grant Cefnogi Mentergarwch newydd. Yn fuan wedyn argymhellodd adroddiad PricewaterhouseCoopers y dylid mabwysiadu system ddewislen ar gyfer cynlluniau cymorth cyllidol i fusnesau. Cynhaliwyd y gweithredu hyn i gyd wrth i'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth gael ei weithredu, gyda golwg ar sicrhau y darperir yr amgylchedd cymorth busnes gorau i fentrwyr yng Nghymru.

2 Mae'r Grwp Gorchwyl a Gorffen wedi llunio adroddiad ac mae'r papur hwn yn cynnwys adroddiad y Grwp, ac yn nodi pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i roi argymhellion y Grwp ar waith. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r Adroddiad a'r trefniadau newydd arfaethedig sy'n deillio ohono.

**Crynodeb o'r prif argymhellion**

3 Cynigir pedwar prif fath o gynllun, i gynnwys:

- Cymorth i Ddechrau - awdurdodau lleol i barhau i'w gynnig;
- Cymorth Buddsoddi - rhennir hwn i bum maes:
- Grantiau uwch na £50,000 - Cymorth Dethol Rhanbarthol (RSA) i'w weinyddu fel ar hyn o bryd gan y Cynulliad Cenedlaethol;
- Grantiau rhwng £5,000 a £50,000 - fersiwn wedi'i resymoli o RSA ar gyfer busnesau bach a chanolig i gael ei gynnal gan y Cynulliad Cenedlaethol, ar gael am y tro cyntaf yng Nghymru i fusnesau bach a chanolig y tu allan i ardaloedd a gynorthwyir (ar gyfraddau grant is);
- Grantiau llai na £5,000 - parhau i gael eu cynnig gan awdurdodau lleol;
- Benthyciadau - i'w gweinyddu fel ar hyn o bryd gan Gyllid Cymru;
- Grantiau Sectoraidd (e.e. Sector twristiaeth) - i'w hadolygu gan gyrff perthnasol;
- Cymorth Y a D - cynllun newydd yn seiliedig ar SMART/SPUR/RIN i'w ddatblygu gan WDA;

- Cymorth Hyfforddiant - Cymorth ELWa i'w gysylltu â chymorth buddsoddi.

**Trafodaeth**

4 Darperir cymorth busnes mewn dwy wahanol ffordd:

- Cyngor ac arweiniad, gan gynnwys cymorth ar gyfer busnes a chynllunio adnoddau dynol; a
- Chymorth cyllidol, a allai fod trwy grant, benthyciad neu fuddsoddiad ecwiti.

5 Fel rhan o ymateb cyntaf Llywodraeth y Cynulliad i Arolwg Cymorth Busnes y Pwyllgor, gofynnwyd i'r WDA resymoli'r categori cyntaf, gan gynnwys creu Porth cwsmer. Cyfeiriwyd gwaith y Grwp Gorchwyl a Gorffen felly at y maes olaf, tra'n nodi'r angen ar gyfer darpariaeth i fusnesau sy'n galluogi cwmnïau i wneud dewisiadau goleuedig rhwng y ffurfiau gwahanol o gymorth.

6 Roedd datblygu system ddewislen ar gyfer cwmnïau cymorth cyllidol yn argymhelliad pwysig yn adroddiad PriceWaterhouseCoopers (PWC). Roedd yn darparu fframwaith ymarferol er mwyn i'r Grwp allu nodi bylchau mewn darpariaeth a chysylltiadau rhwng rhaglenni. Er bod llawer o drafod wedi bod am y llu o gynlluniau cymorth sydd ar gael i gwmnïau, daeth y Grwp i'r casgliad nad oedd llawer yn gorgyffwrdd o fewn maes cynlluniau grant, heblaw am y rhai hynny a oedd yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol; yn wir, roedd bylchau ac mae'r cynlluniau newydd yn ceisio eu llenwi. Yn benodol, roedd pryder nad oedd cynlluniau grant buddsoddi'n gweithredu ar hyn o bryd y tu allan i'r Ardaloedd Cymorth, mewn ardaloedd fel Powys.

7 Yn ogystal â bylchau, daeth y Grwp o hyd i feysydd a oedd yn gorgyffwrdd. Mae'r cynigion hyn yn ceisio sicrhau bod cylch gweithredu clir ar gyfer pob cynllun. Bydd awdurdodau lleol yn gweinyddu dau gynllun ac mae CLlLC yn awyddus i annog awdurdodau lleol i fabwysiadu dull safonol isaf. Cynhelir trafodaethau rhwng CLlLC, WDA a’r Is-adran Buddsoddi a Rheolaeth Gorfforaethol wrth iddynt weithio ar fanylion eu cynlluniau priodol i sicrhau bod eu rheolau a’r amrywiaeth o grantiau a gynigir yn parhau’n gytûn.

8 Mae posibilrwydd y ceir elfennau cyffredin hefyd gyda’r benthyciadau a gynigir gan Cyllid Cymru a nododd y Grwp bod angen canllawiau ar gyfer sefydliadau darparu a busnesau ynglyn â phryd ddylid darparu grant a benthyciad. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu datblygu gan yr Is-adran Cyngor Economaidd fel rhan o weithrediad yr argymhellion.

9 Mae’r dull dewislen wedi galluogi i sefydliadau sydd â’r cyfrifoldeb o weinyddu’r gwahanol eitemau ar y ddewislen fabwysiadu dull arloesol o gysylltu gwahanol elfennau neu atebion busnes. Ni ddisgwylir i bobl ddilyn y canllawiau a grybwyllir uchod yn ddeddfol – bydd angen i sefydliadau darparu, wrth drafod eu cynlluniau gyda busnesau, allu cynnig atebion sy’n briodol

i amgylchiadau'r cwmni. Bydd yr atebion hyn yn cynnwys cymorth i ddatblygu'r gweithlu sy'n gysylltiedig â darparu cyngor ar gyfer buddsoddiad newydd. Ystyrir datblygu'r gweithlu yn agwedd bwysig ar gynllunio busnes cwmni wrth ystyried buddsoddiad newydd, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf cynhyrchiol o'r buddsoddiad. Ymdrech yw'r dull dewislen felly i ddarparu dull integredig o ddarparu cymorth cyllidol i fusnesau, yn hytrach na chyfres o raglenni ar wahân.

**Amseru**

10 Gan eithrio cymorth Y a D, disgwylir i'r ddewislen atebion gael ei gweithredu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. O ran Y a D, bydd rhaglenni SMART Cymru a'r staff sy'n eu cynnal yn cael eu trosglwyddo i'r WDA, o 1 Ebrill 2002. Bydd angen cliriad Cymhorthion Gwladol gyda DG Comp cyn cyflawni unrhyw newidiadau i'r cynlluniau hynny. Ni fyddai wedi bod yn bosib adolygu ac ailgynllunio'r cynlluniau ar yr un amser â pharatoi ar gyfer y trosglwyddo. Y cynllun presennol yw i'r WDA adolygu'r cynlluniau a'u hailgynllunio yn ôl yr awgrymiadau yn adroddiad PWC, ynghyd ag ymgorffori cynlluniau cymorth arloesedd presennol y WDA i becyn cyffredinol newydd, ar ôl iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb ganddynt ym mis Ebrill 2002. Byddai'r holl becyn wedyn yn cael ei glirio trwy DG Comp, gyda golwg ar ddechrau ym mis Ebrill 2003.

**Cydymffurfiaeth**

11 Mae'r Adroddiad yn nodi'r ddeddfwriaeth ar gyfer cynnal pob cynllun, a goblygiadau'r Cymhorthion Gwladol. Mae swyddogaethau'r Cynulliad o dan yr holl Ddeddfau hyn wedi'u dirprwyo'n llawn i mi fel Prif Weinidog Cymru ac rwyf i wedi'u dirprwyo fel sy'n briodol i Ddatblygu Economaidd, Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac Addysg a phortffolios Addysg Gydol Oes. Efallai y bydd angen caniatâd unigol gan bob Gweinidog ar gyfer pob agwedd ar y cynigion cyn eu gweithredu'n llawn.

**Goblygiadau cyllidol**

12 Bydd cost darpariaeth Cymorth Hyfforddiant ELWa yn cael ei ysgwyddo o fewn y cyllidebau presennol, ynghyd â'r costau o gynnal cynlluniau presennol awdurdod lleol. Mae goblygiadau cyllidebol ar gyfer cymorth buddsoddi. Mae cymorth ychwanegol ar gyfer y cynllun newydd wedi'i ddarparu gan BEL Datblygu a Chefnogi Mentergarwch (MEG Datblygu Economaidd) fel a ganlyn:

| | (£000) |
|---|---|
| 2002-03 | 3,000 |
| 2003-04 | 4,000 |

Yn ymarferol, bydd y cynllun cymorth buddsoddi yn cael ei weithredu ochr yn ochr â RSA ac yn cael ei arwain gan alw. Fel gyda’r RSA, byddwn yn cwrdd â phob grant a gymeradwyir.

*Yn anffodus, mae gweddill y ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn unig.*